1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**
**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**
Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 5**

# *Carfanau Pwyso 1: Nodweddion a Mathau*

## Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics | Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru | 2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad. |
| Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig | 2.2.3: Ymddygiad pleidleisio. |
| **Adnodd 5: Carfanau pwyso 1: Nodweddion a mathau** | **2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth**<br>**– Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pleidiau a charfanau pwyso.**<br>**– Mathau gwahanol o garfanau pwyso gydag enghreifftiau.** |
| Adnodd 6: Carfanau pwyso 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1: Nodweddion a mathau | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |

**Awduron yr adnodd:**

Dr. John Glyn

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

Golygwyd E-lawlyfr 1 gan Dr. Elin Royles.

# GWYBODAETH GRAIDD

Mae carfanau pwyso yn ganolog i ddemocratiaethau modern. Er bod etholiadau a phleidiau gwleidyddol yn allweddol i ddemocratiaeth gynrychioliadol, dydyn nhw ddim o reidrwydd yn darparu llawer o gyfleon i gymdeithas fynegi ei barn wleidyddol wrth y llywodraeth y tu hwnt i'r etholiadau hynny. Ar y llaw arall, mae carfanau pwyso yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau polisi mewn meysydd gwahanol o ddydd i ddydd. O'r herwydd, ystyrir gweithgarwch carfanau pwyso gan ddinasyddion fel ffordd fwy effeithiol o gael effaith uniongyrchol ar fater neu ddadl wleidyddol sy'n bwysig iddyn nhw. Cwestiwn mawr yw i ba raddau mae carfanau pwyso yn darparu modd o gael dylanwad i ystod o fewn cymdeithas neu yn hytrach bod gan rai carfanau dipyn mwy o rym a dylanwad nag eraill.

## Beth yw carfanau pwyso?

Ceir diffiniad dylanwadol o garfanau pwyso gan Grant:

> '*an organisation which seeks as one of its functions to influence the formulation and implementation of public policy, public policy representing a set of authoritative decisions taken by the executive, the legislature and the judiciary and by local government and the European Union*' (Grant, 2000: 14)

Mae'r diffiniad hwn yn tynnu sylw at nodweddion pwysig:

**Trefniadaeth**: Tanlinellir pwysigrwydd trefniadaeth i garfan, o ran bod yn strwythuredig ac wedi ei ffurfioli. Er bod hyn yn nodwedd bwysig, gall hyn amrywio rhwng rhai wedi eu strwythuro yn hynod ffurfiol gyda chyfansoddiad ffurfiol yn amlinellu eu hamcanion a'u nodau, ac eraill â strwythurau tipyn mwy anffurfiol, er enghraifft grwpiau gwyrdd radical neu ffeministaidd.

**Aelodaeth**: mae aelodaeth wedi ei diffinio fel un o nodweddion carfan ond nid oes gan bob un aelodaeth bendant. Ceir dadleuon ynghylch hyn gyda rhai'n hawlio nad yw aelodaeth wedi ei diffinio yn nodwedd sy'n perthyn i bob grwp. Ceir rhai fel Jordan a Richardson sy'n gwrthwynebu'r syniad bod angen aelodaeth gan fod carfanau pwyso'n cynrychioli rhai o fewn cymdeithas sydd heb fod yn aelodau. Er enghraifft, gyda rhai grwpiau nid ydynt yn cynrychioli eu haelodaeth ond yn hytrach yn gweithredu mewn 'solidariaeth' gydag eraill.

**Swyddogaethau carfan**: mae diffiniad Grant yn tynnu sylw taw nid dylanwadu ar lywodraeth yw unig amcan carfanau pwyso a taw dylanwadu ar bolisi cyhoeddus yw un o swyddogaethau carfan. Cryfder hyn yw ehangu'r diffiniad i gynnwys grwpiau sydd efallai yn ymwneud yn wleidyddol o dro i dro os oes gofyn dylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol. O'r herwydd, mae'n bosib cynnwys grwpiau fel yr AA (Automobile Association) yn y diffiniad sy'n cynnig gwasanaethau i'w gwsmeriaid ond yn ceisio dylanwadu ar bolisi cyhoeddus pan fo hynny o fantais.

Ceir pwyslais hefyd ar amcan carfanau pwyso o ddylanwadu ar lunio neu gweithredu polisi cyhoeddus. Mae polisi cyhoeddus yn cyfeirio at yr holl fannau mynediad sydd ar gael i garfanau pwyso eu defnyddio.

> '*at the start of the 21st century, it is argued that the failure of the political parties to meet the complexity of demands placed upon them…has been reflected in a steady decline in party membership and low turnouts at general elections. Conversely, there has been an exponential rise in both the number and membership of pressure groups, as individuals have come to regard pressure groups as a more effective channel for political expression. Post-modernists argue this trend indicates we now live in an era in which traditional forms of political practice based on mass political parties are in terminal decline, and a new form of politics is now developing.*' (Kavanagh et al., 2006: 420)

## Mathau o Garfanau

Mae carfanau pwyso'n gallu amrywio cryn dipyn o ran eu nodau gwleidyddol, ac felly eu natur. Mae dwy brif ffordd o wahaniaethu rhwng carfanau.

**1. Amcanion: carfanau adrannol neu garfanau achos**
Gwahaniaethodd Stewart (1958) rhwng dau brif fath o garfan:

**Carfanau adrannol** (*sectional groups*) – swyddogaeth y carfanau hyn yw diogelu diddordebau cyffredin eu haelodau, sef **cyfran benodol o'r gymdeithas**. Mae aelodaeth o'r grwpiau hyn fel arfer wedi ei neilltuo i'r garfan honno o'r gymdeithas sy'n cael ei chysylltu â'r diddordebau penodol hyn. Weithiau, caiff carfanau adrannol eu beirniadu am eu pwyslais ar hunan-ddiddordeb, eu bod yn eirioli dros wella sefyllfa economaidd eu haelodau yn hytrach nag er budd ehangach y gymuned.

**Carfanau achos** (*cause groups*)– mae'r carfanau hyn yn **hyrwyddo achos**, agwedd benodol neu gyfres o amcanion penodol. Mae eu **haelodaeth** yn gallu bod yn **ehangach** wrth gynnwys rhai sy'n rhannu'r un **gwerthoedd**, heb i'r aelodau fod yn debyg o elwa'n uniongyrchol o'r materion dan sylw. Mae'r achos felly yn seiliedig ar hyrwyddo materion ehangach (e.e. yr amgylchedd, plant, anifeiliaid) ac mae eu haelodaeth yn aml iawn yn fwy cynhwysol.

Bydd '**carfan frig**' yn garfan ffurfiol sy'n cyfuno nifer fawr o garfanau a mudiadau sydd â diddordebau cyffredin. Y mwyaf adnabyddus yw Cyngres yr Undebau Llafur (y TUC) sy'n gweithredu fel ymbarél dros undebau nifer o wahanol alwedigaethau ac mae bron pob undeb yn gysylltiedig ag o, neu Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, y CBI, a'i aelodaeth yn cynnwys llawer o'r cwmnïau mawr a chanolig.

Er enghraifft, mae Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (y CLA) yn '**garfan adrannol**' am mai briff y gymdeithas yw gwneud yn siŵr fod ystod eang o ddiddordebau perchnogion tir yn cael eu hyrwyddo a'u gwarchod. Mae cymdeithasau busnesau, grwpiau proffesiynol ac undebau ar gyfer pobl mewn swyddi arbennig, swyddogion heddlu, nyrsys neu athrawon, hefyd ymysg 'carfanau diddordeb' gan eu bod yn cynrychioli ac yn hybu eu buddiannau. Gall hefyd gynnwys carfanau sy'n cynrychioli grwpiau ethnig.

Mae gwahanol fathau o '**garfanau achos**'. Enghraifft yw'r NSPCC sy'n anelu at ddiogelu carfan o gymdeithas, gan weithio er budd plant. Nid yw ei haelodau a'i chefnogwyr i gyd yn blant. Esiampl arall yw Cyfeillion y Ddaear sydd drwy nifer o ymgyrchoedd gwahanol yn galw am newidiadau i ddiogelu'r amgylchedd a'r blaned.

## Asesu

Mae rhai yn hawlio bod y categoreiddio rhwng carfanau adrannol ac achos yn llai defnyddiol wrth i'r gwahaniaeth rhyngddynt fod yn gynyddol llai eglur.

– Mae llawer o garfanau adrannol bellach yn ymdebygu i garfanau achos er mwyn cynyddu eu proffil a hyrwyddo buddiannau ehangach sydd o ddiddordeb penodol i'w haelodaeth. Gall hyn wedyn greu dryswch a'i gwneud yn fwy anodd eu dosbarthu. Esiampl yw'r modd y byddai'r BMA yn hawlio ei fod yn ymgyrchu dros faterion iechyd yn gyffredinol ac nid yn unig ddiddordebau proffesiynol meddygon.

– Erbyn hyn, gellir priodoli nodweddion adrannol ac achos i nifer fawr o garfanau gan olygu bod gwahaniaethu rhwng y carfanau yn llawer mwy aneglur.

**DIFFINIADAU CRYNO**

**Carfan 'adrannol' –**
hyrwyddo buddiannau ei haelodau sy'n gyfran o'r gymdeithas

**Carfan 'achos' –**
hyrwyddo achos neu gyfres o amcanion penodol, yn seiliedig ar werthoedd cyffredin

**Carfan 'frig' –**
carfan ffurfiol sy'n cyfuno nifer fawr o garfanau a mudiadau sydd â diddordebau cyffredin

**ENGHREIFFTIAU O'R GWAHANOL FATHAU O GARFANAU**

**Carfan 'adrannol' –**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), National Union of Teachers (NUT), Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol (NUS)

**Carfan 'achos' –**
Cyfeillion y Ddaear Cymru

**Carfan 'frig' –**
Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)

### B. Statws: *Carfanau Mewnol neu Allanol?*

Dull arall o wahaniaethu rhwng carfanau pwyso a gyflwynwyd gan Wyn Grant sy'n pwysleisio eu statws ymysg llunwyr polisi fel ffactor allweddol yw rhwng grwpiau mewnol ac allanol.

Y syniad yw bod rhai '**mewnol**' yn cael mwy o fynediad uniongyrchol at y prif lunwyr polisi, a thrwy hynny fwy o ddylanwad swyddogol. O fewn y diffiniad hwn, gwahaniaethir ymhellach rhwng:

**Carfanau mewnol craidd** (*core insider groups*) sydd â dylanwad dros ystod eang o faterion polisi, e.e. Y BMA, Cymdeithas Feddygol Prydain a'i barn arbenigol ac wrth gynrychioli meddygon sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at bolisi.

**Carfanau mewnol arbenigol** (*specialist insider groups*) sydd â statws mewnol o fewn ystod mwy cyfyngedig o arbenigedd, e.e. WWF.

**Carfanau mewnol ymylol** (*peripheral insiders*) sydd yn ymhél ag ystod llawer mwy cyfyng a phenodol o faterion ac felly anaml mae galw am eu mewnbwn gan y llywodraeth.

Cânt i gyd eu hystyried fel carfanau dilys i gyfranogi yn y broses o lunio penderfyniadau o fewn llywodraeth. Er mwyn elwa o'r statws yma rhaid iddynt gydymffurfio â rheolau'r gêm sy'n cynnwys parodrwydd i gael deialog adeiladol â'r llywodraeth, peidio â beirniadu polisïau yn ormodol, neu ddefnyddio gormod o weithredu uniongyrchol.

Bydd carfanau '**allanol**' ar y tu 'allan' yn cael llai o ddylanwad ar lywodraeth. Gellir gwahaniaethu rhwng:

**Carfanau mewnol posib** (*potential insiders*) – sydd yn allanol oherwydd natur eu hachos neu oherwydd eu diffyg profiad.

**Carfanau allanol o reidrwydd** (*outsiders by necessity*) sydd yn anhebygol o gyrraedd statws uchel ac sy'n gorfod gweithio ar y tu allan e.e. CND.

**Carfanau allanol ideolegol** (*ideological outsiders*) nad ydynt yn credu y gallant wireddu eu hamcanion drwy ddulliau gwleidyddol confensiynol. Gwell ganddyn nhw osgoi cael eu dal yng nghyfaddawdu y system wleidyddol a bod 'ar y tu fas'. Esiampl yw Amnest Rhyngwladol.

## Asesu

Dadleuir bod categoreiddio grwpiau fesul statws yn ymateb i rai o'r problemau sy'n codi o ran categoreiddio yn ôl amcanion (carfanau adrannol neu achos). Gall fod yn fwy defnyddiol wrth asesu i ba raddau mae'n debygol y bydd carfan yn gwireddu ei phrif amcanion. Hefyd, mae'n cyfeirio at berthynas â'r llywodraeth, y math o strategaeth a ddilynir gan garfan, goblygiadau hynny i natur y berthynas â'r llywodraeth (e.e. ceisio cael ei dderbyn gan lywodraeth ai peidio) a pha statws a gyrrhaeddir neu beidio o ganlyniad i'w hymdrechion.

Mae rhai yn cwestiynu pa mor ddefnyddiol yw'r gwahaniaethu hwn:

: Nid yw'n cydnabod yn ddigonol y modd y gall nifer o grwpiau weithredu i ryw raddau neu'i gilydd fel carfanau mewnol ac allanol drwy ddefnyddio strategaethau mewnol ac allanol ar yr un pryd. Hefyd, gall grwpiau symud yn gyflym o un categori i'r llall.

: Gellir dadlau bod gan fwy o grwpiau statws mewnol na'r disgwyl. Mae'r mwyafrif helaeth iawn o garfanau yn ymwneud â llywodraeth i ryw raddau neu'i gilydd ac felly mae ganddynt 'fynediad mewnol' wrth i lywodraeth ymgynghori ag ystod eang o grwpiau. Er enghraifft, dechreuodd yr holl garfanau amgylcheddol radical fel rhai allanol ond tra bod rhai fel Greenpeace yn parhau felly, mae eraill wedi datblygu'n garfan fewnol i ryw raddau neu'i gilydd.

## Beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng carfanau pwyso a phleidiau gwleidyddol?

Mae rhai wedi hawlio (Thomas, 2001: 4) '*no meaningful analytical distinction exists among parties, groups and social movements*.' Tra honnir bod gwahaniaethu rhwng pleidiau a charfanau pwyso yn dod yn llai eglur, dyma rai o'r prif nodweddion sy'n debyg a gwahanol rhyngddynt:

| | TEBYGRWYDD | GWAHANIAETHAU PLAID WLEIDYDDOL | CARFAN BWYSO |
|---|---|---|---|
| **Amcanion** | Mae'r ddau yn ceisio addysgu'r cyhoedd am faterion arwyddocaol | – Amcan ennill grym mewn llywodraeth a gweithredu eu rhaglen lywodraethu (neu o leiaf ran ohoni os mewn llywodraeth glymblaid).<br>– Fel arfer, cynghrair eang gyda chonsyrn dros ystod eang o faterion, gan geisio adnabod blaenoriaethau polisi mewn proses o gyfaddawdu o fewn cymdeithas. Ceisio apelio at y nifer mwyaf posib o bleidleiswyr. | – Dim diddordeb mewn rheoli drwy lywodraethu, yn hytrach dylanwadu ar bolisi cyhoeddus yn y maes/meysydd o ddiddordeb.<br>– Fel arfer, canolbwyntio yn fwy penodol ar fynegi diddordebau eu haelodau wrth y llywodraeth. |

| | TEBYGRWYDD | GWAHANIAETHAU PLAID WLEIDYDDOL | CARFAN BWYSO |
|---|---|---|---|
| **Amcanion** | Mae'r ddau yn ceisio addysgu'r cyhoedd am faterion arwyddocaol | – Y nod yw ennill grym mewn llywodraeth a gweithredu eu rhaglen lywodraethu (neu o leiaf ran ohoni os ydynt mewn llywodraeth glymblaid).<br>– Fel arfer, cynghrair eang â chonsyrn dros ystod eang o faterion, gan geisio adnabod blaenoriaethau polisi mewn proses o gyfaddawdu o fewn cymdeithas. Ceisio apelio at y nifer mwyaf posib o bleidleiswyr. | – Dim diddordeb mewn rheoli drwy lywodraethu, yn hytrach dylanwadu ar bolisi cyhoeddus yn y maes/meysydd o ddiddordeb.<br>– Fel arfer, canolbwyntio yn fwy penodol ar fynegi diddordebau eu haelodau wrth y llywodraeth. |
| **Etholiadau** | Carfanau yn gallu cynnig ymgeiswyr i sefyll mewn etholiadau hefyd. | Sefyll mewn etholiadau i ennill grym gwleidyddol. | Ddim fel arfer yn cynnig ymgeiswyr mewn etholiadau. Yn hytrach, trefnu a sefydlu grwpiau penodol, weithiau gydag aelodaeth ffurfiol, er mwyn ceisio dylanwadu ar lywodraeth a sefydliadau eraill. |
| **Strwythur a threfniadaeth** | | Strwythur mwy democrataidd, gydag etholiadau mewnol ar gyfer yr arweinyddiaeth. | Mwy o amrywiaeth o fewn strwythur mewnol. Etholiadau mewnol ar gyfer arweinyddiaeth yn llai cyffredin (fel arfer undebau llafur). |
| **Maint, adnoddau a chefnogaeth** | Lleihad yn aelodaeth y pleidiau a hefyd rhai carfanau pwyso, e.e. undebau llafur.<br>Natur aelodaeth yn gallu amrywio. Diffyg gweithredu gan aelodau yn gallu bod yn her i bleidiau a charfanau pwyso. | Natur aelodaeth yn cynnwys pobl sy'n rhannu'r un ideoleg wleidyddol.<br>Bydd gan bleidiau bob amser aelodaeth.<br>Yn y gorffennol, wedi bod ag aelodaeth eang iawn ond wedi lleihau'n sylweddol. | Natur aelodaeth, yn rhannu'r un gwerthoedd, syniadau, neu statws.<br>Wedi datblygu i fod yn ffordd i nifer helaeth gyfranogi. |
| **Dulliau** | Rhai dulliau yn gyffredin rhwng y ddau.<br>Technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar ddulliau pleidiau a charfanau. | Dulliau traddodiadol o gyfathrebu ac ymgyrchu. | Carfanau yn gallu bod yn gysylltiedig gyda dulliau protest ac anufudd-dod sifil er mwyn mynegi safbwynt. Gall rhai ddewis defnyddio dulliau yn fwriadol hefyd. |
| **Ystod polisïau** | | Gorfod llunio polisïau ar yr holl ystod o gyfrifoldebau llywodraethol oherwydd eu bod yn anelu at fod yn rym llywodraethu. | Ffocws ar lunio a dylanwadu ar bolisi yn y meysydd polisi penodol sydd o ddiddordeb iddynt. |

'*The wide range of concerns of parties is typically wider than that of pressure groups. To be regarded as serious, they have to have policies which cover every conceivable issue of public interest. The narrower concerns of pressure groups do not generally make contesting elections a viable strategy*' (Grant, 2000: 13).

## LLYFRYDDIAETH

Grant, W. (2000). *Pressure Groups and British Politics* (Llundain: Palgrave).

Kavanagh, D., Richards, D., Smith, a Geddes (2006). *A British Politics* (Rhydychen: Oxford University Press).

Stewart, J D (1958). *British Pressure Groups* (Rhydychen: Oxford University Press).

Thomas, C. S. (gol.) (2001). *Political Parties and Interest Groups* (Llundain: Lynne Rienner).

Waldegrave, S. (1998). *Pressure Groups in Modern Britain* (Llundain: The Social Market Foundantion).